

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU
5 TACHWEDD 2020 (10AM)

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Iau, 5 Tachwedd 2020.

Yn Bresennol: Y Cyngorydd Tony Sharps (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Adele Davies-Cooke a Ralph Small

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Arweinydd y Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democrataidd (Nicola Gittins) a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd (Sharon Thomas)

Swyddogion Cyfreithiol

Cyfreithiwr (Tim Dillon)

Cyfreithiwr dan hyfforddiant (Elen Williams) yn arsylwi

Yr ymgeisydd

1. YMDDIHEURIADAU

Dim.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

5. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried a phenderfynu ar gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni (ar y cyd). Tynnodd sylw at yr adrannau perthnasol o ganllawiau mabwysiedig y Cyngor ar drin euogfarnau, rhybuddion a chosbau eraill wedi'u cofnodi.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, rhoddodd yr ymgeisydd wybodaeth gefndir am ddigwyddiadau yn ei fywyd personol yn arwain at ei euogfarn. Yn ei lythyr sylwadau, ni wnaeth esgusodion am ei ymddygiad ac roedd wedi cymryd camau i geisio cymorth o ganlyniad i'r un digwyddiad yma. Rhoddodd eglurhad am ei gofnod cyflogaeth a'i amgylchiadau personol cyfredol a oedd wedi arwain at ei gais.

Diolchodd yr aelodau o'r panel i'r ymgeisydd am ei onestrwydd ac eglurder wrth adrodd amgylchiadau ei euogfarn.

Eglurodd y Cyfreithiwr mai natur yr euogfarn oedd wedi ysgogi'r gwrandawriad. Mewn ymateb i gwestiynau, rhoddodd yr ymgeisydd rhagor o eglurhad ynghylch yr amseru a'r amgylchiadau'n ymwneud â'r troseddau'n arwain at ei euogfarn. Roedd yn mynegi edifeirwch am ei gamau, y dywedodd y bu iddynt gael eu dylanwadu gan ddigwyddiadau yn ei fywyd personol. Dywedodd fod ei benderfyniad i geisio cymorth ar ôl ei euogfarn wedi ehangu ei ddealltwriaeth o faterion iechyd meddwl, a'i fod wedi dysgu o'r holl brofiad. Cadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw broblemau gydag alcohol neu reoli dichter. I gefnogi ei gais, siaradodd am ei ddull wrth ddelio â sefyllfaoedd a allai fod yn anodd, a gwella sefyllfaoedd o'r fath, pe bai'n cael y drwydded.

Pan holwyd ef gan y Cadeirydd a fyddai'n hoffi gwneud rhagor o sylwadau, diolchodd yr ymgeisydd i'r panel am ystyried ei gais.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

5.1 Penderfynu ar y Cais

I bennu'r cais, rhoddodd y panel ystyriaeth i'r holl sylwadau llafar ac ysgrifenedig, ynghyd â Chanllaw'r Cyngor ar Drin Euogfarnau, Rhybuddion, Cyhuddiadau Troseddol neu gosbau eraill a gofnodir, yn cynnwys paragraffau 2.3, 4.1 a 4.19 o'r canllawiau a enwyd.

Wrth ystyried y wybodaeth a ddangosir ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr ymgeisydd, yn arbennig yr amser sydd wedi mynd heibio, edifeirwch yr ymgeisydd am yr un digwyddiad hwn, a'r ffaith nad oedd wedi ei wrthwynebu, teimlai'r panel - o bwysu a mesur - ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn berchen ar Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni (ar y cyd).

Gwahodwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

5.2 Penderfyniad

Rhoddodd y Cadeirydd wybod, ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed, yn ogystal â Chanllawiau Cyngor Sir y Fflint ar Drin Euogfarnau, Rhybuddion, Cyhuddiadau Troseddol neu gosbau eraill a gofnodir, cytunodd y panel fod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded, ac y gellid rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni am dair blynedd.

PENDERFYNWYD:

Bod yr ymgeisydd, yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn unigolyn cymwys ac addas i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Hacni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded iddo am dair blynedd.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.05am)

.....
Y Cadeirydd